OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1291 (Cy. 98)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Gyffordd 36a (Brychdyn), Sir y Fflint) a Chefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Ewlo, Sir y Fflint i Ffin Cymru/Lloegr) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2015

*Gwnaed* *30 Mawrth 2015*

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) a Chefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Gyffordd 36a (Brychdyn), Sir y Fflint) a Chefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Ewlo, Sir y Fflint i Ffin Cymru/Lloegr) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y

gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 1 Ebrill 2015 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y darnau o’r cefnffyrdd” (“*the lengths of the trunk roads*”) yw’r darnau hynny o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 30 Mawrth 2015

***R Morgan***

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi eu rhoi i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin a ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A55 wrth:

Cyffordd 12 (Cyfnewidfa Tal-y-bont)
Cyffordd 13 (Abergwyngregyn)
Cyffordd 14 (Cyfnewidfa Madryn)
Cyffordd 20 (Bae Colwyn)
Cyffordd 21 (Bae Colwyn)
Cyffordd 22 (Hen Golwyn)
Cyffordd 23 (Llanddulas)
Cyffordd 25 (Bodelwyddan)
Cyffordd 27 (Llanelwy)
Cyffordd 28 (Y Waun)
Cyffordd 29 (Rhuallt/Pant y Dulaith)
Cyffordd 30 (Travellers' Inn)

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 15a (Penmaenmawr).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 16a (Dwygyfylchi).

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 19 (Llansanffraid Glan Conwy).

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 23a (Pen-sarn).

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd Faenol Bropor.

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 27a (Pont Dafydd).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd Coed Bach.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 31 (Caerwys).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 32 (Cyffordd Dolphin).

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 32a (Springfield).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 32b (Depo Helygain).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd Little Chef, Helygain.

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain yr A55 yng Nghoed y Cra.

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 33a (Brookside) a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33a (Cei Connah).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Pinfold Lane, Alltami.

Y darnau cyfan o'r ddolen wrthglocwedd tua'r dwyrain, y ddolen allanol tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 (Ewlo) a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 (Conwy).

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 i Alltami wrth Gyffordd 33b.

Y darnau cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain a ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A494 wrth Gyfnewidfa Dewi Sant, Ewlo.

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 (i Gaer) wrth Gyffordd 34.

Y darnau cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain a ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 36a (Brychdyn).

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A494 wrth Plough Lane, Aston.

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A494 yn Drome Corner.

Y darnau cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain a ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy.

Y darn cyfan o'r ffordd gyswllt tua'r dwyrain o Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy'r A494 i'r M53.

Y darn cyfan o'r ffordd gyswllt tua'r gorllewin o'r M53 i Gyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy'r A494.